

Gweithgarwch ychwanegol

1. Darllenwch y darn canlynol yn uchel a rhowch ychydig funudau i bobl feddwl amdano.

'Minnau, gyfeillion, ni ellais lefaru wrthyf fel wrth rai ysbrydol, ond fel wrth rai cnawdol, fel babanod yng Nghrist. Llaeth a roddais i chwi'n ymborth, ac nid bwyd solet, oherwydd nid oeddech eto'n barod. Ac nid ydych yn barod yn awr chwaith, oherwydd cnawdol ydych o hyd.

Oherwydd, tra bo cenfigen a chynnen yn eich plith, onid cnawdol ydych, ac yn ymddwyn yn ôl safonau dynol? Pan yw un yn dweud, "Yr wyf fi'n perthyn i blaid Paul," ac un arall, "Minnau, i blaid Apolos," onid dynol ydych? Beth ynteu yw Apolos? Neu beth yw Paul? Dim ond gweision y daethoch chwi i gredu drwyddynt, a phob un yn cyflawni'r gorchwyl a gafodd gan yr Arglwydd. Myfi a blannodd, Apolos a ddyfrhaodd, ond Duw oedd yn rhoi'r tyfiant. Felly, nid yw'r sawl sy'n plannu yn ddim, na'r sawl sy'n dyfrhau, ond Duw, rhoddwr y tyfiant. Yr un sy'n plannu a'r un sy'n dyfrhau, un ydynt, ac fe dderbyn y naill a'r llall ei dâl ei hun, yn ôl ei lafur ei hun. Canys eiddo Duw ydym ni, fel cydweithwyr; gardd Duw, adeiladwaith Duw, ydych chwi.' (1 Corinthiaid 3: 1-9 BCND)

Beth mae'r darn uchod yn ei ddweud wrthyf chi am gydweithio?

2. Meddyliwch am y partneriaethau y sonnir amdanynt yn y ffilm. Pa rai fydddech chi'n cyfrif sydd bwysicaf a pham?

3. Gofynnwch i aelodau'r grŵp feddwl am storïau yn y newyddion sy'n dangos cydweithio ar ei orau a storïau sy'n dangos diffyg cydweithio. Trafodwch yr enghreifftiau gan ystyried beth sydd ganddynt i'w ddweud wrth yr eglwys.

Noder: Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb yn Ionawr/Chwefror 2020.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Cynllun Y Ffordd



Partneriaethau

*Blwyddyn 3, Rhan 3
Gaeaf 2019*

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Mae'r ffilm 'PARTNERIAETHAU' yn cynnwys pedair pennod sy'n amrywio o ran eu hyd. Awgrymwn eich bod yn rhannu'r gwylio fel y bo'n addas i chi. Cynhwysir hefyd nifer o gwestiynau ar gyfer pob pennod unigol, ond efallai fod yna gwestiynau eraill fydd o ddiddordeb i'r grŵp.

Pennod 1: *Partneriaeth o fewn yr eglwys fyd-eang*

Pennod 2: *Selïau partneriaeth*

Pennod 3: *Ein partneriaethau*

Pennod 4: *Her partneriaeth*

Ar dudalen 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

***Beth allwn ni fel eglwys ei wneud
yn dilyn y drafodaeth hon?***

Cwestiynau i'w trafod

Pennod 1: Partneriaeth o fewn yr eglwys fyd-eang

1. Sut fydddech chi'n diffinio 'partneriaeth' mewn perthynas â bywyd eglwys?
2. Pam fod partneriaeth yn bwysig i dyfiant a lles yr eglwys?
3. Meddyliwch am enghreifftiau lle mae eich eglwys yn cydweithio gydag eraill? Pa fudd sy'n dod o'r cydweithio hynny i: a) eich eglwys; b) y rhai rydych yn cydweithio â hwy?
4. Pa gyfleoedd sydd ar gael i'ch eglwys chi ddysgu sut mae eglwys eraill yn gwneud pethau yn wahanol? Ydy eich eglwys chi'n manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael?
5. Gallwch chi feddwl am enghraifft o gydweithio sydd wedi cryfhau neu newid yr hyn rydych chi'n ei gredu?
6. Oes perygl i'ch eglwys chi fod yn 'ynysig' ac yn 'hunandybus'? Beth sy'n gyfrifol am hynny a sut mae ei rhwystro rhag digwydd?

Pennod 2: Seiliau partneriaeth

1. Beth yw ystyr 'Undod yr Eglwys' i chi?
2. Beth ddysgoch chi wrth weddio ac addoli gydag eglwys eraill? Beth wnaeth eich ysbrydoli a beth nad oeddech chi'n eu hoffi.
3. Ydych chi'n credu fod bywyd eich eglwys chi yn llwyddo i ddangos y bartneriaeth a'r undod sy'n rhan o hanfod Duw? Ble mae hi'n llwyddo a ble mae hi'n methu?
4. Beth yw cryfderau a gwendidau bod yn eglwys annibynnol? Os perygl i'r eglwys fod yn rhy annibynnol?
5. Fydddech chi'n cytuno â'r feirniadaeth yn y ffilm ein bod ni'n methu rhannu'r newyddion da gyda'n pobl ni ein hunain? Os felly, beth sy'n bennaf gyfrifol am hynny?
6. Ydy addoliad a bywyd eich eglwys yn eich helpu i gofio eich bod yn rhan o deulu mwy sydd â chonsérn amdanoch ac yn gweddio drosoch?

Pennod 3: Ein partneriaethau

1. Sut fydddech chi'n argyhoeddi aelodau eich eglwys fod perthyn i CWM yn bwysig?
2. Ydy CYTÛN yn cael y sylw y dylai ar agenda eich eglwys chi?
3. Pa broblemau yn eich cymuned chi y credwch y gellid eu datrys trwy gydweithio ag eglwys eraill?
4. Sut fydddech chi'n teimlo pe bai eich eglwys chi'n penderfynu cydweithio gyda chrefyddau eraill?
5. Ydy'ch eglwys wedi cydweithio gydag asiantaethau seciwlar? A lwyddwyd i gynnal y dystiolaeth Gristnogol? A ddaethoch chi ar draws anawsterau neu broblemau oedd yn deillio o'r cydweithio?
6. Ym mha ffordd y mae eich eglwys chi wedi bod ar ei hennill o gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol?

Pennod 4: Her partneriaeth

1. Pa bartneriaethau sy'n herio eich ffydd, neu'n cryfhau eich ffydd? Sut maen nhw'n gwneud hynny?
2. Oes yna bethau yn y byd sy'n ymddangos i chi yn gwbl amhosibl i'w trawsnewid? Sut dylid delio â nhw?
3. Dywedir yn aml mai un o broblemau mwyaf yr eglwys heddiw yw ei methiant i wneud pethau mewn ffordd wahanol. A allwch chi feddwl am enghraifft o hynny mewn perthynas â'ch eglwys chi? Beth allai ein helpu ni i wneud pethau yn wahanol?
4. Sut ydych chi'n deall yr addewid am 'nef newydd a daear newydd'? Ai addewid am rywbeth ar ôl marwolaeth yw hyn neu a yw'n berthnasol i'r byd a'r bywyd hwn?
5. Pam ddylai'r eglwys boeni am newid hinsawdd?
6. 'Wrth edrych i mewn yn ormodol, rydym mewn perygl o golli golwg ar y darlun ehangach.' Pa mor wir yw hynny am eich eglwys chi?